

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



PELLTER/HYD: 4.6 milltir (7.4 km) 1 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Burton 308

CYMERIAD: Hawdd i ganolig, 1.0 milltir (1.6 km) o lonydd tawel, traciau coetir ac isffyrdd, caeau a da byw, coetir, gall fod yn fwdlyd mewn mannau

CHWILIWCH AM: Castell Benton (cartref preifat) • adar coetir • tirweddau bugeiliol
• coed coniferaidd a collddail

MWY O WYBODAETH: Cadwch giatiau'r fferm yn glir yn y man parcio

COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwybrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi

ALLWEDD

-  Llwybr Cylch
-  Llwybrau Cyhoeddus
-  Parcio - cyfyngedig
-  Toiledau Cyhoeddus (tymhorol)
gan Jolly Sailor, Burton Ferry
-  Safle Bws

Coed Benton

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 1 awr 30 munud

Pellter: 4.6 milltir, 7.4 km

Cludiant cyhoeddus: Bws
gwasanaeth Burton 308

Cyfeirnod map: SM994059

Er gwaethaf eu dyhead i fod yn 'fynyddoedd' nid yw Mynydd Burton na'i gymydog Mynydd Williamston yn codi i fwy na 55 metr (180 troedfedd).

Tu hwnt i Fferm Mynydd Williamston mae'r rhan fwyaf o'r llwybr trwy goetir, cyfuniad o goed llydanddail a chonifferau sy'n rhedeg ar hyd ochr ddwyreiniol y Cleddau mor bell â Port Lion.

Chwiliwch am yr heidiau mawr o ditw tomos las sy'n chwilio copa'r coed am fwyd ar ddiwrnodau oer o Aeaf. Yn yr Haf mae'r coed yn fwrlwm o gân y teloriaid fel telor y coed a'r dryw felen, sy'n hedfan o Affrica i fridio yng nghymoedd coediog Sir Benfro.

Mae gan ddyfrffordd y Daugleddau sawl castell a adeiladwyd fel cadarnleoedd ond dros y blynyddoedd, daethant yn gaerau yr oedd pobl yn byw ynddynt - mae Castell Benton yn un.

Credir i'r castell gael ei adeiladu i amddiffyn arglwyddiaeth Rhos ac efallai y bu'n gartref i deulu pwerus, teulu'r De la Roche. Mae'r tŵr arall yn dyddio o'r 13eg ganrif. O ddiwedd y Rhyfel Cartref yn yr 17eg ganrif roedd y castell yn adfail ond cafodd ei ailddodrefnu yn y 1930au ac mae nawr yn gartref preifat sydd ddim ar agor i'r cyhoedd.

Mwy o wybodaeth: Cadwch giatiau'r fferm yn glir yn y man parcio.